



DARLLENWCH

Genesis 39: 1-6 a 19-23

ADNODAU
ALLWEDDOL


Genesis 39: 2 a 21

Gofynnwch i rywun
eich helpu i ddod o hyd
i'r adnodau hyn.

Stori 3 Y Carcharor Ffyddlon

Dychmygwch pe bai pobl ddieithr yn mynd â chi i wlad bell! Mae'n siwr bod Joseff yn ofnus iawn ar y daith i'r Aifft! Beth fyddai'n digwydd iddo nesaf? Cyn hir, cafodd ei werthu i ddyn o'r enw Potiffar. Roedd Potiffar yn gapten ym myddin brenin yr Aifft. Roedd yn gorfod teithio gyda'r fyddin. Pan welodd fod Joseff yn was ffyddlon a gweithgar, gadawodd bopeth yn ei ofal ef. Roedd Joseff yn gwneud ei waith mor dda fel nad oedd raid i Potiffar boeni am ddim byd.

C Darllenwch y brawddegau hyn a thynnu llinell trwy'r geiriau **ANGHYWIR.**



Pan ddaeth Joseff i'r Aifft, cafodd ei GURO, WERTHU, OLLWNG YN RHYDD.
Daeth yn was i PHARO, PEILAT, POTIFFAR.
Roedd yn gofalu am BOPETH, DIM BYD, RAI PETHAU.
Roedd Joseff yn DDIOG, GELWYDDOG, ONEST.

Mae'n siwr bod ar Joseff hiraeth am ei gartref, ei dad a'i frodyr. Efallai ei fod yn teimlo'n unig ac ar goll.


Ond yn ei holl brofiadau, mae'r Adnodau Allweddol yn dweud wrthym:-

“Roedd yr
Arglwydd gyda
Joseff.”

Lliwch y geiriau.

Wnaeth Duw ddim gadael Joseff na'i siomi! Mae Duw yr un peth o hyd.
Os gwnawn ni drystio Duw, ni fydd ef yn ein siomi.

Ond un diwrnod, dechreuodd pethau fynd o chwith i Joseff. Cafodd y bai gan wraig Potiffar er nad oedd wedi gwneud dim byd o'i le. Pan ddaeth Potiffar adref, fe ddywedodd hi gelwydd wrtho am Joseff. Credodd Potiffar ei wraig a chafodd Joseff ddim cyfle i ddweud y gwir. Er nad oedd bai arno o gwbl, cafodd ei daflu i'r carchar at lawer o bobl eraill.



C Rhowch bob un o'r geiriau hyn yn y bwlch cywir.

gwraig carchar Potiffar was

Dywedodd g_____ P_____ gelwydd am Joseff.

Collodd Joseff ei waith fel prif w_____ Potiffar a chafodd ei daflu i'r

c_____ ar gam.



Druan o Joseff! Roedd yn edrych fel pe bai pawb yn ei erbyn. A oedd ganddo un ffrind ar ôl? A oedd Duw wedi anghofio amdano hefyd? Nac oedd, wir!

C Unwaith eto, mae'r Beibl yn dweud yr un geiriau:-

R_____ yr A_____ g_____ J_____.

Llanwch y bylchau.

Fel o'r blaen, roedd Joseff yn ufudd yn y carchar a chyn hir cafodd ofalu am garcharorion eraill. Roedd Duw yn ei baratoi ar gyfer gwaith pwysig!